**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 13 Mehefin 2022

Pwnc | Subject: Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022

Annwyl Jeremy,

Diolch am ysgrifennu at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor eich bod yn bwriadu gosod Rheoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 gerbron y Senedd ar 14 Mehefin 2022.

Yn ystod ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2022, trafododd y Pwyllgor eich llythyr a'r 'Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar reoliadau safonau'r Gymraeg drafft ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol'.

O ran y Rheoliadau hyn, roedd yr Aelodau o'r farn bod y materion a godwyd gan randdeiliaid wedi eu hadlewyrchu wrth ddrafftio'r gyfres hon o Reoliadau. Nododd yr Aelodau hefyd fod newidiadau wedi'u gwneud i fersiwn gynharach o'r Rheoliadau, yn dilyn sylwadau a wnaed gan Helen Mary Jones, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Bumed Senedd.

Y tro hwn, cytunodd yr Aelodau nad oedd angen i'r Pwyllgor wneud unrhyw waith craffu pellach. Nododd yr Aelodau hefyd y byddai'r Rheoliadau yn cael eu gosod yn y Senedd drwy'r weithdrefn gadarnhaol, sy'n golygu y bydd cyfle i wneud sylwadau yn eu cylch yn ystod y ddadl berthnasol yn y Cyfarfod Llawn.

Er bod y Pwyllgor wedi dewis peidio â gwneud rhagor o waith craffu ar y gyfres hon o Reoliadau, ailadroddodd yr Aelodau eu dymuniad i gael cyfle i wneud gwaith craffu effeithiol ar Reoliadau

Safonau'r Gymraeg sydd yn yr arfaeth. Mae’r Pwyllgor yn gofyn ichi barhau i sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer gwaith craffu ar Reoliadau yn y dyfodol.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol